# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir Yr Eglwys yng Nghymru San Marc

Dyddiad yr arolygiad: 29/06/2026

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir Yr Eglwys yng Nghymru San Marc yn darparu amgylchedd gofalgar a chynhwysol lle mae perthnasoedd cadarnhaol yn ganolog i'w gwaith. Mae staff yn adnabod disgyblion a'u teuluoedd yn dda, ac mae rhieni'n gwerthfawrogi'r gofal, y cymorth a'r ymrwymiad a ddangosir i'w plant. Ers ei phenodi, mae'r pennaeth wedi meithrin perthnasoedd cryf â chymuned yr ysgol ac wedi sefydlu ffocws ar y cyd ar ddiwallu anghenion pob un o'r disgyblion. Mae ganddi weledigaeth gref i ddisgyblion fod y gorau y gallant fod ac wedi nodi llwybr clir i'r ysgol symud ymlaen.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda, yn mwynhau dysgu ac yn gweithio'n barchus gyda staff a gyda'i gilydd. Caiff ymddygiad heriol ychydig o ddisgyblion ei reoli'n dda gan staff, ar y cyfan. Mae disgyblion yn elwa ar ystod eang o brofiadau sy'n eu helpu i ddatblygu hyder, creadigrwydd a dealltwriaeth o'u cymuned leol a Chymru. Mae cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am amrywiaeth a pherthnasoedd iach yn gyfyngedig. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da mewn medrau siarad, darllen, mathemateg, medrau digidol a Chymraeg. Mae staff yn cynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda, gan eu helpu i wneud cynnydd da tuag at eu targedau unigol.

At ei gilydd, mae athrawon yn diwallu anghenion disgyblion yn llwyddiannus ac yn defnyddio holi ac adborth yn effeithiol i helpu disgyblion i wella'u dysgu. Fodd bynnag, caiff dysgu ei gyfarwyddo gormod gan oedolion, weithiau, ac nid yw bob amser yn symud yn ddigon cyflym. Mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu hannibyniaeth, meddwl drostynt eu hunain a chymhwyso'u medrau yn hyderus mewn sefyllfaoedd newydd.

Mae gan yr ysgol adeiladau helaeth a thir eang, ond nid yw staff bob amser yn gwneud y defnydd gorau o'r amgylcheddau dysgu dan do ac yn yr awyr agored i gefnogi dysgu, yn enwedig ar gyfer disgyblion iau.

Mae arweinwyr wedi cyflwyno systemau effeithiol i olrhain cynnydd disgyblion a darparu cymorth ychwanegol, lle mae angen. Maent yn gweithio'n agos gyda llywodraethwyr, sy'n adnabod yr ysgol yn dda ac yn darparu cymorth a her briodol. Er bod presenoldeb wedi gwella ychydig, mae gormod o ddisgyblion yn methu'r ysgol neu'n cyrraedd yn hwyr o hyd.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud pedwar argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Gwella presenoldeb a phrydlondeb

A2 Sicrhau bod addysgu yn hyrwyddo dysgu a meddwl yn annibynnol disgyblion yn gyson

A3 Gwella profiadau dysgu a'r defnydd o'r amgylcheddau dysgu dan do ac yn yr awyr agored ar gyfer disgyblion iau

A4 Cryfhau'r cwricwlwm i sicrhau bod cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddysgu am amrywiaeth a pherthnasoedd

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 01/09/2026